Taflen Cyngor Frog*life* 1

LLYFFANTOD MELYN, LLYFFANTOD DAFADENNOG A MADFALLOD MEWN PYLLAU MEWN GERDDI

Canllawiau i roi cyngor ynglyn ag ymholiadau cyffredinol yn ymwneud ag amffibiaid mewn gerddi.

1. A oes gennyf ormod o lyffantod melyn/gormod o grifft llyffant yn y pwll yn yr ardd?

Weithiau mae'n ymddangos fod gormod o grifft llyffant mewn pyllau mewn gerddi, neu ormod o benbyliaid neu o lyffantod. Cyn belled ag nad ydych wedi cyflwyno anifeiliaid o unrhyw fan arall, mae hon yn sefyllfa gwbl normal. Gall amffibiaid weld newidiadau enfawr yn eu niferoedd, a thrwy ddodwy llawer iawn o wyau gallant sicrhau fod o leiaf rai o'r penbyliaid yn goroesi'r llu o beryglon a wynebant yn ystod wythnosau cyntaf eu bywydau. Mae llyffantod yn bwysig iawn fel prae naturiol i famaliaid, adar, ymlusgiaid, pysgod ac infertebratau dyfrol, a gellir cyfyngu ar eu niferoedd hefyd oherwydd eithafion yn nhymheredd y dwr ac wrth i'r pyllau sychu. Wrth ystyried fod lefel marwolaeth naturiol yn uchel iawn ymysg penbyliaid, dim ond cyfran fechan o'r llyffantod melyn a ddechreuodd fel grifft fydd yn datblygu'n llyffaint bach yn y diwedd. Bydd cystadleuaeth ymysg penbyliaid yn sicrhau mai dim ond y rhai sy'n gweddu orau i fyw yn y pyllau fydd yn goroesi.

- Mae amffibiaid yn lluosog yn naturiol. Peidiwch â phoeni ynglyn â'r hyn sy'n ymddangos fel gor-boblogi.

2. Beth ddylwn i ei wneud ynglyn â llyffantod melyn neu grifft nad oes arnaf eu hangen?

Wrth fynd â grifft neu lyffantod i lyn arall, gallwch gynyddu'r perygl o wasgaru pysgod a fydd yn

bwyta rhywogaethau eraill neu blanhigion ymosodol, gan gynyddu poblogaethau'r llyffantod yn artiffisial mewn mannau eraill, a chwtogi ar niferoedd y penbyliaid yn eich pwll eich hun. Gallwch hefyd fod yn cyflwyno'r anifeiliaid i ardal anaddas (a gall gwneud hynny fod yn anghyfreithlon o dan Ddeddf Gollwng Anifeiliaid). Mae ar amffibiaid angen rhai nodweddion o'u cynefinoedd dyfrol (magu) a'u cynefin ar dir (lle maent yn gaeafgysgu), a hyd yn oed os yw'r pwll yn edrych yn ddelfrydol i lyffantod fagu ynddo, mae'n bosibl y gall fod yn ddi-werth oni bai fod gorchudd addas yn ymyl i ganiatau iddynt chwilio am fwyd a gaeafu'n ddiogel. Yn yr un modd, mae symud llyffantod a grifft yn annhebygol o gwtogi ar niferoedd y llyffantod yn sylweddol oherwydd bydd y niferoedd yn cael eu hadfer yn gyflym iawn i gymryd lle y rhai sydd wedi eu symud. Mae'n bosibl y bydd perygl hefyd o ledaenu clefydau a pharasitiau.

- Peidiwch â symud llyffantod melyn/ llyffantod dafadennog/ madfallod/grifft i bwll arall. Mae'n well eu gadael yn llonydd yn eich gardd a gallwch fod yn torri'r gyfraith os ydych yn eu symud i ardal anaddas.
- Os yw'r pwll sydd gennych yn mynd i gael ei ddinistrio a hynny yn anochel, cysylltwch â'ch Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt leol neu â'ch Grwp Amffibiaid neu Ymlusgiaid i gael cyngor ynglyn â sut a ble i fynd â'r anifeiliaid. Ni ddylid ymyrryd â phyllau rhwng Chwefror a mis Hydref; bydd hyn yn lleihau'r perygl o aflonyddu ar anifeiliaid ifainc ac anifeiliaid sy'n magu. Yr adeg gorau i glirio pwll yw yn gynnar yn ystod yr hydref cyn i'r rhew caled gyrraedd, neu yn ddiweddarach yn ystod y gaeaf pan fo'r

tywydd yn well. Drwy wneud hyn os byddwch yn aflonyddu ar lyffantod sy'n gaeafgysgu yng ngwaelod eich pwll byddwch yn sicrhau na fyddant yn marw o effeithiau'r oerni. Gofynnwch am ganiatâd y perchennog bob amser. Gallwch ddod o hyd i'ch cysylltiadau lleol drwy gyfrwng Cyd-gysylltydd y Rhywogaethau Cyffredin (cyfeiriad ar ddiwedd y daflen hon).

- Peidiwch â rhyddhau amffibiaid mewn safleoedd 'gwyllt' neu i warchodfeydd natur.
- Defnyddiwch amffibiaid sydd wedi eu hachub i stocio pyllau newydd mewn gerddi.

3. Hoffwn fod â llyffantod melyn yn y pwll yn fy ngardd. O ble y gallaf eu cael?

Gall llyffantod melyn, llyffantod dafadennog a madfallod wella gwerth eich gardd o safbwynt amgylcheddol ac addysgiadol ac o ran aestheteg. Mae llawer o gartrefi yn cael llawer o bleser wrth wylio llyffantod melyn yn dychwelyd i fagu flwyddyn ar ôl blwyddyn ac wrth wneud hynny maent yn chwarae rhan gynyddol bwysig yn y gwaith o warchod amffibiaid wrth i'w cynefinoedd gwyllt fynd yn fwy a mwy prin. Mae rhai pethau i'w cofio fodd bynnag os ydych yn meddwl am greu pwll i fywyd gwyllt neu os ydych yn dymuno gael amffibiaid i gartrefu mewn pwll sy'n bodoli'n barod.

Yn rhyfedd iawn ni ddylai symud llyffantod melyn, llyffantod dafadennog neu fadfallod i bwll a adeiladwyd o'r newydd fod yn angenrheidiol fel rheol. Wrth drosglwyddo anifeiliaid o un pwll i'r llall rydych yn wynebu'r peryglon a amlinellwyd uchod. Gallech hefyd fod yn cyflwyno'r anifeiliaid i bwll sy'n anaddas i'w cynnal neu un lle nad oes cynefin da i aeafgysgu ynddo neu i fwydo gerllaw. Cofiwch fod y rhan fwyaf o lyffantod melyn, llyffantod dafadennog a madfallod yn treulio'r rhan fwyaf o'u hoes ar y tir. Wrth adeiladu eich pwll yn ôl ychydig o ganllawiau syml (gweler 5), byddwch yn gweld y gall amffibiaid gartrefu ynddo yn naturiol ymhen ychydig iawn o amser. Mae amffibiaid yn teithio yn helaeth wrth fudo ac er mwyn bwydo, a bydd rhai yn cartrefu mewn pyllau newydd addas pan ddeuant o hyd iddynt.

- Y ffordd orau o stocio eich pwll gydag amffibiaid yw eu gadael i wneud hynny drosoch.

Os oes gennych bwll nad oes amffibiaid wedi cartrefu ynddo ar ôl blwyddyn neu ddwy, gall hyn fod oherwydd:

- nad yw'r pwll ei hun yn ddeniadol i amffibiaid. Efallai eich bod yn cadw llawer o bysgod, sy'n aml yn bwyta grifft a phenbyliaid (er y gall llyffantod dafadennog gyd-fyw yn hapus gyda physgod oherwydd blas annymunol eu croen)
- mae golwg y llyn yn anaddas (mae llyffantod melyn yn tueddu i hoffi pyllau bas, tra bo llyffantod dafadennog yn tueddu i hoffi dwr dyfnach).
- mae'r llystyfiant yn anaddas (mae madfallod yn elwa ar blanhigion sydd â dail bychain tenau fel brigwlydd i ddodwy eu hwyau arnynt).
- mae eich pwll ymhell oddi wrth boblogaethau o amffibiaid eraill. Os felly, yna gall fod yn dderbyniol i gyflwyno anifeiliaid o bwll mewn gardd arall. Yr un gorau yw pwll yn eich stryd/pentref a dim mwy na hanner milltir i ffwrdd. Y ffordd orau o gyflwyno llyffantod melyn a llyffantod dafadennog yw fel darnau bychain o grifft (mae un neu ddau o bentyrrau neu 'raffau' yn ddigonol fel rheol). Gellir trosglwyddo madfallod drwy gasglu planhigion o bwll cyfagos gyda wyau arnynt yn ystod misoedd Ebrill/Mai neu drwy gasglu niferoedd bychain o'r ddau ryw. Ni ddylid aflonyddu ar byllau gwyllt. Cofiwch fodd bynnag cyn trosglwyddo anifeiliaid y dylech ofalu bod eich llyn a'ch gardd mor addas ar gyfer yr amffibiaid â phosibl.
- Dylid ystyried trosglwyddo amffibiaid o lyn cyfagos dim ond fel dewis olaf.
- Mae'r madfallod dwr cribog a llyffantod y twyni yn cael eu gwarchod ac mae ganddynt ofynion ecolegol penodol. Mae angen trwyddedau i drin y rhwyogaethau hyn. Ni fyddai pwll mewn gardd yn addas ar gyfer llyffantod y twyni. Dangosodd ymchwil mai ychydig iawn o fadfallod dwr cribog sydd wedi ymsefydlu'n

llwyddiannus mewn pyllau mewn gerddi.

4. Mae llyffantod melyn yn lladd fy mhysgod. Beth fedra' i ei wneud?

Weithiau mae llyffantod melyn neu lyffantod dafadennog yn cael gafael mewn pysgod a gallant (yn anaml) eu niweidio. Mae hyn yn tueddu i ddigwydd yn gynnar yn y tymor magu lle mae nifer fawr o lyffantod gwryw yn ceisio paru gyda'r benywod sy'n brinnach, ac yn eu rhwystredigaeth yn bachu unrhyw beth bron y gallant gael gafael arno. Mae hyn yn ddigwyddiad prin a bydd yn digwydd dim ond am ychydig o ddyddiau yn ystod y gwanwyn. Yn wir mae llyffantod melyn yn fanteisiol iawn i bysgod mewn pyllau oherwydd bod eu grifft a'r penbyliaid yn fwyd ardderchog iddynt. Yn gyffredinol mae'r pysgod yn elwa ar gyd-fyw yn hapus gyda hwy.

- Mae pysgod yn elwa o fyw gyda llyffantod melyn.

5. Beth yw'r cynllun gorau wrth greu pwll i amffibiaid?

Nid oes raid i chi fynd i drafferth mawr i ddenu y canol er mwyn sicrhau fod dwr bas i'r brogaod ddodwy'r grifft ar gael, sef tua 15 cm (6 modfedd) o ddwr. Yn y man dyfnaf gall y pwll fod tua un metr (3 troedfedd) o ddyfnder. Y ffordd orau o orchuddio gwaelod y pwll yw gyda gorchudd butyl neu HDPE, gyda haen o ddeunydd fel bidum, tywod neu hen garped wedi ei roi rhyngddo a'r pridd yn ddelfrydol. Bydd sicrhau amrywiaeth da o lystyfiant yn sicrhau fod eich pwll yn denu bywyd gwyllt. Dylid plannu planhigion ymylol fel iris felen a mintys mewn mannau ar hyd rhannau o ochrau'r pwll er mwyn i hyn fod yn orchudd i'r anifeiliaid. Bydd planhigion yn tyfu o'r dwr ac sy'n tyfu o dan y dwr fel glas y gors a brigwlydd yn sicrhau bod gan y madfallod safleoedd i ddodwy eu hwyau. Mae planhigion sy'n tyfu o dan y dwr hefyd yn gymorth i ocsigeneiddio dwr y llyn.

- Edrychwch ar ganllawiau i'ch cynorthwyo ynglyn â lleoliad a dyluniad eich pwll.

6. Beth yw "coes goch" a sut y gallwch helpu?

Weithiau mae llyffantod melyn yn dioddef o glefydau sydd â nifer o symptomau annymunol fel gwaedlif, briwiau a phroblemau gyda'r llygaid. Os darganfuwch fod eich llyffantod melyn yn sâl neu yn marw gallwch gynorthwyo drwy roi gwybodaeth am y digwyddiad i'r Prosiect sy'n ymwneud â Marwolaethau Llyffantod Melyn (ffôn: 01986 784518) sy'n ymchwilio i'r marwolaethau anghyffredin hyn. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw eglurhad pam fod hyn yn digwydd, ond gyda gwybodaeth bellach gan bobl sy'n berchen ar byllau mewn gerddi mae'n bosib y byddwn yn gallu darganfod mwy. Mae'n bwysig cofio fod hon yn dal yn ffenomenon weddol anghyffredin ac nad oes unrhyw berygl y gwyddom amdano i bobl oddi wrth lyffantod melyn sy'n dioddef. Yn anffodus ni wyddys am unrhyw driniaeth ar gyfer y clefyd ar hyn o bryd.

- Cysylltwch â'r Prosiect sy'n ymwneud â Marwolaethau Brogaod os yw eich brogaod yn ymddangos fel pe baent yn sâl.

7. Beth am weddill fy ngardd?

Bydd yr amgylchedd o gwmpas eich llyn yn dylanwadu ar ba mor llwyddiannus y bydd amffibiaid yn cartrefu yno. Mae'n syniad da gadael rhan o'r ymyl o amgylch y pwll gyda llystyfiant gweddol drwchus yn tyfu arno er mwyn iddo fod yn orchudd llaith ar gyfer yr amffibiaid fydd yn dod allan o'r llyn. Gadewch rywfaint o'r glaswellt o'i gwmpas heb ei dorri, ac os oes raid i chi dorri'r lawnt yn ymyl y llyn, gwnewch hynny cyn mis Mai (cyn i'r anifeiliaid bychain adael y pwll). Torrwch y glaswellt sydd yn cael ei gadw'n fyr yn rheolaidd a chyn i'r glaswellt fynd yn rhy uchel i lyffantod melyn a llyffantod dafadennog guddio ynddo. Yn ddelfrydol, dylid gadael i rannau o'ch gardd dyfu'n

wyllt er mwyn i rannau gyda llystyfiant trwchus a gyda hen goed a phentyrrau o gerrig ynddynt gael eu defnyddio ar gyfer gaeafgysgu. Mae llyffantod melyn, llyffantod dafadennog a madfallod yn bwydo ar falwod a phethau eraill sy'n bwyta blodau/llysiau ac felly drwy annog amffibiaid byddwch yn datblygu dull naturiol o reoli pla, yn lle gorfod defnyddio cemegau drud sy'n aml yn aneffeithiol. Sefydlwch domen o gompost oherwydd mae hyn hefyd yn rhoi bwyd a gorchudd i amffibiaid.

- Trefnwch eich gardd fel bod gennych ardaloedd gwyllt ac ardaloedd taclus a rheolwch hwy yn ofalus.

8. Beth yw'r ffordd orau o gyfrannu mwy tuag at gadwraeth amffibiaid ym Mhrydain?

Ceir rhwydwaith o grwpiau yn ymwneud ag ymlusgiaid ac amffibiaid sy'n hyrwyddo gwarchod yr anifeiliaid hynny drwy gofnodi, arolygu, addysg a rheolaeth ymarferol. Os hoffech wybod mwy, cysylltwch â Jim Foster, Cyd-gysylltydd Rhywogaethau Cyffredin yn:

Frog*life*, Mansion House, 27-28 Market Place, Halesworth, Suffolk, IP19 8AY. Ffôn: 01986 873733. Ffacs: 01986 874744.

Darllen Pellach

Beebee, T(1985) **Frogs and Toads**. Whittet Books.

Foster, J. & Barr, J. (1998) **The Herpetofauna Worker's Guide 2000**. Froglife, Halesworth.*

British Herpetological Society (undated) **Garden ponds as amphibian sanctuaries**. Advisory leaflet.^

English Nature (1991) **Facts about amphibians**. Advisory leaflet.#

English Nature (1994) **Facts about Great Crested Newts.** Advisory Leaflet.#

English Nature (1996) **Managing ponds for wildlife**. Advisory leaflet.#

Frazer, D. (1983) **Reptiles and Amphibians in Britain**. Collins - New Naturalist Series.

Froglife (1997) **Amphibians and Roads**. Advice Sheet 3.*

Froglife (1997) **Conserving grass snakes**. Advice sheet 6.*

Froglife (1996) **Unusual frog mortality**. Advice sheet 7.*

Froglife (1997) **Exotic amphibians and reptiles in the wild**. Advice sheet 8.*

Slater, F. (1992) **The Common Toad**. Shire Publications.

Wisniewski, P. (1989) **Newts of the British Isles**. Shire Publications.

Cynhyrchwyd y daflen hon gan Frog*life*, sefydliad cadwraeth nad yw'n gwneud elw.

Frog*life*, White Lodge, London Road, Peterborough PE7 0LG Tel: 01733558844, fax: 01733 558440
E-mail: froglife@froglife.org

November 1999.

Please feel free to photocopy and distribute this leaflet.